**RHAGOLWG**

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 23 Tachwedd 2004]**

## Dydd Mawrth 30 Tachwedd a dydd Mercher 1 Rhagfyr 2004

## Dydd Mawrth 2 Rhagfyr a dydd Mercher 8 Rhagfyr 2004

## *Toriad 13 Rhagfyr 2004 – 9 Ionawr 2005*

## Dydd Mawrth 11 Ionawr 2005 a dydd Mercher 12 Ionawr 2005

## Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2004

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Prif Weinidog : Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (30 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 adran 2 (1 funud)**
- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 1) 2004**

Bwriad y Gorchymyn hwn yw cael gwared ar y rhwystrau i ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig yn effeithiol yn y system gynllunio a rhoi cyfle i'r rhai sydd am ddefnyddio cyfrwng electronig, yn hytrach na chyfrwng papur, i wneud hynny. Serch hynny, nid yw'r Gorchymyn yn disodli'r system bresennol sy'n dibynnu ar bapur. Bydd yn parhau am gyhyd ag y bo'r rhai sy'n ymwneud â'r broses gynllunio am ei defnyddio. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn datganoli.

- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004 (1 funud)**

  Bwriad y Gorchymyn hwn yw cael gwared ar y rhwystrau i ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig yn effeithiol yn y system gynllunio a rhoi cyfle i'r rhai sydd am ddefnyddio cyfrwng electronig, yn hytrach na chyfrwng papur, i wneud hynny. Serch hynny, nid yw'r Gorchymyn yn disodli'r system bresennol sy'n dibynnu ar bapur. Bydd yn parhau am gyhyd ag y bo’r rhai sy'n ymwneud â'r broses gynllunio am ei defnyddio. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn datganoli gan y Cynulliad.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol (Cymru) 2004 (20 munud)**

  Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddf Addysg Uwch 2004 sy'n darparu ar gyfer system newydd i ddelio â chwynion myfyrwyr. Bydd y darpariaethau'n rhoi un system ar waith i ddelio â chwynion myfyrwyr ar ôl i'r sawl sy'n cwyno fynd trwy'r holl weithdrefnau cwyno mewnol yn y sefydliad lle mae neu lle'r oedd yn astudio. Mae'r Gorchymyn Cychwyn yn cychwyn darpariaethau sy'n dileu awdurdodaeth yr Ymwelydd dros gwynion myfyriwr ac sy'n caniatáu i'r Cynulliad ddynodi corff i weithredu cynllun i ystyried cwynion myfyrwyr. Mae'r Gorchymyn Cychwyn yn darparu ar gyfer ymdrin â chwynion dros dro cyn 1 Ionawr 2005 ac mae hefyd yn cychwyn darpariaeth sy'n dileu awdurdodaeth yr Ymwelydd dros gwynion myfyriwr. Rôl yr Ymwelydd yw adolygu sut y mae'r Brifysgol yn cymhwyso ei gweithdrefnau mewnol ei hun wrth fynd i'r afael â chw^yn neu apêl y deisebwr. Y Frenhines neu Arglwydd Lywydd y Cyfrin Cyngor yw'r Ymwelydd gan amlaf. Yn ymarferol, pan gyflwynir deiseb i'r Ymwelydd, bydd yr Ymwelydd yn enwebu rhywun i weithredu ar ei ran, megis bargyfreithiwr.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 (15 munud)**

  Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad i gyflwyno darpariaethau sy'n galluogi'r awdurdodau lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth i newid y trefniadau hynny mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys newid ffurf y weithrediaeth neu newid o drefniadau gweithrediaeth i drefniadau amgen (neu i'r gwrthwyneb). Nid yw'r rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd yn caniatáu ar gyfer newid

ffurf model cyfansoddiadol y cyngor.

- ***Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)***
- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Trefniadau Trosiannol) (Cymru) 2004 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**

    Mae angen y rheoliadau hyn er mwyn gweithredu'r cynllun cymorth trosiannol y bwriedir iddo hwyluso'r newidiadau ar gyfer pobl y mae eu heiddo wedi symud i fyny dau fand neu ragor yn sgil ailbrisio ac ailfandio'r dreth gyngor.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau am Dalu) (Trefniadau Trosiannol) (Cymru) 2004 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**

    Mae angen y rheoliadau hyn er mwyn gweithredu'r cynllun cymorth trosiannol y bwriedir iddo hwyluso'r newidiadau ar gyfer pobl y mae eu heiddo wedi symud i fynr ddau fand neu ragor yn sgil ailbrisio ac ailfandio'r dreth gyngor.

- **Dadl ar y Gyllideb Derfynol (60 munud)**

Bydd y ddadl hon yn gyfle i Aelodau'r Cynulliad drafod cyllideb ddrafft y Gweinidog dros Gyllid ar gyfer 2005-06 a'r Cynlluniau Dangosol ar gyfer 2006-07 a 2007-08 a gyhoeddir ar 22 Tachwedd.

## Dydd Mercher 1 Rhagfyr 2004

- **Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (1 funud)**

Llywodraethir ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio gan Reol Sefydlog 17.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried

- Apêl Gynllunio gan Windjen Power Cyf ar gyfer adeiladu a gweithredu 6 generadur tyrbin gwynt a thraciau mynediad cysylltiedig, adeiladu 1 adeilad rheoli; mast monitro;

man storio dros dro a phyllau benthyg yn Fferm Llethercynon, Garthbrengy, Aberhonddu, Powys.

- Cais Cynllunio a alwyd i mewn gan Celtic Energy Cyf am estyniad arfaethedig safle glo brig, gyda golchfa ar y safle, wedi'i ddilyn gan waith adfer ac ôl-ofal yn East Pit, Gwauncaegurwen, ger Rhydaman.

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Datganiad gan y Gwir Anrh Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (45 munud)**
- **Dadl ar Araith y Frenhines (75 munud)**

  Dadl yw hon i nodi a rhoi sylwadau ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Mesurau Seneddol newydd, a rhoi cylch gwaith y Mesurau sy'n arbennig o berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r pwyllgorau pwnc iddynt eu hystyried ymhellach ac adrodd arnynt.

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 7 Rhagfyr 2004

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) o dan Reol Sefydlog 24.27(iv) (20 munud)**

  Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar i Ionawr 2005 er mwyn rhoi effaith i'r drefn drawsgydymffurfio a fydd yn gymwys yng Nghymru o dan y Taliad Sengl a gyflwynir o 2005 ymlaen o dan y diwygiadau i Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE. Mae deddfwriaeth debyg yn cael ei chyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i'r Prif Weinidog (20 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Tai 2004 i'r Prif Weinidog (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2004 (10 munud)**

  Mae'n ofynnol i gynghorau dalu cyfraniadau ardrethu annomestig i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r ardrethi y maent yn eu casglu oddi wrth fusnesau yn eu hardal. Telir ardrethi i'r pwll ardrethu annomestig ac oddi yno maent yn cael eu hailddosbarthu i gynghorau ar sail y boblogaeth o oedolion. Gwneir taliadau i gynghorau ar sail amcangyfrifon a gwblheir cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae cynghorau'n cyflwyno ffurflenni archwiliedig ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ac ar sail y rhain maent yn cael taliadau neu'n gwneud taliadau ychwanegol i'r pwll fel y bo'n briodol.

  Cynhwysir y rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hyn yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992, (OS 1992/3238). Gwneir diwygiadau yn flynyddol i rai elfennau er mwyn sicrhau bod y sylfaen ar gyfer cyfraniadau'r dreth gyngor yn aros yn gywir. Mae'r rheoliadau hyn yn diweddaru'r rheolau y mae rhaid i gynghorau eu cymhwyso wrth gyfrifo eu cyfraniadau at y pwll.

- **Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol (45 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo trosgwyddo'r Prif Grwp Gwariant (MEG) o fewn y flwyddyn o dan Reol Sefydlog 21 (15 munud)**

  Mae Rheol Sefydlog 21 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog dros Gyllid gyflwyno nifer o gynigion bob blwyddyn ariannol i gael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i newid cyllidebau. Y cynnig hwn yw'r cyntaf yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd y cynnig yn cwmpasu'r newidiadau sydd wedi digwydd ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r Gyllideb Atodol fis Mawrth diwethaf. Bydd manylion y newidiadau hyn yn cael eu nodi yn y tablau sydd gyda'r cynnig a'r nodiadau ategol.

## Dydd Mercher 8 Rhagfyr 2004

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- ***Cynnig i drafod y 3 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (30 munud)***
- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004**

  Effaith fwriedig y rheoliadau hyn yw nodi'r broses sydd i'w dilyn mewn apêl a wneir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol naill ai i gynnal neu i wrthod cwyn am wrychoedd neu berthi uchel sy'n cael effaith andwyol ar fwynhad cymydog o'i eiddo.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004**

  Diben y Rheoliadau hyn yw dod â Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i rym sy'n rhoi pwerau i'r awdurdodau lleol ddelio â chwynion am wrychoedd neu berthi uchel sy’n achosi niwsans. Mae'n pennu lefel uchaf y ffi y caiff awdurdod lleol ei chodi am ymdrin â chwyn**.**

- **Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2004**

  Effaith fwriedig y Gorchymyn hwn yw dod â Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i rym sy'n rhoi pwerau i'r awdurdodau lleol ddelio â chwynion am wrychoedd neu berthi uchel sy’n achosi niwsans.

- ***Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (20 munud)***

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004**

  Mae'r Rheoliadau'n pennu gweithdrefnau a darpariaethau penodol y Gymuned ar gyfer asesu, awdurdodi, goruchwylio a labelu bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM). Eu hamcan yw cynnig sylfaen ar gyfer sicrhau lefel uchel o amddiffyniad ar gyfer bywyd ac iechyd pobl, iechyd a lles anifeiliaid, buddiannau'r amgylchedd a defnyddwyr mewn perthynas â bwyd GM tra'n sicrhau bod y farchnad fewnol yn parhau i weithio'n effeithiol

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004**

  Mae'r Rheoliadau'n pennu gweithdrefnau a darpariaethau penodol y Gymuned ar gyfer asesu, awdurdodi, goruchwylio a labelu bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM). Ei amcan yw cynnig sylfaen ar gyfer sicrhau lefel uchel o amddiffyniad ar gyfer bywyd ac iechyd pobl, iechyd a lles anifeiliaid, buddiannau'r amgylchedd a defnyddwyr mewn perthynas â bwyd GM tra'n sicrhau bod y farchnad fewnol yn parhau i weithio'n effeithiol

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru 2004 (15 munud)**

  Bydd y Rheoliadau hyn yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer gwahardd darparwyr gofal dydd o dan amgylchiadau penodedig, yn arbennig lle y gallai fod niwed i blant sy'n derbyn gofal neu a allai dderbyn gofal. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnig y caiff person hawl i apelio i Dribiwnlys Amddiffyn Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed a Safonau Gofal (Tribiwnlys Safonau Gofal) yn erbyn penderfyniad i atal cofrestriad y person hwnnw, neu yn erbyn gwrthodiad i godi'r ataliad hwnnw. Credir bod angen y cynigion ynghylch atal cofrestru er mwyn helpu i amddiffyn plant.

- **Cynnig i fabwysiadu'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth 3ydd Argraffiad.) (60 munud)**

  Diben y ddadl yw ystyried cynnig i'r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu, o dan Reol Sefydlog 19.2, y trydydd argraffiad o'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gadw'r wyth egwyddor a nodir yn yr ail argraffiad o'r Cod, mae angen gwneud newidiadau manwl i'r Cod er mwyn sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau terfynol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2005. Hefyd, bydd y Cod diwygiedig yn gymwys i Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol y bydd Llywodraeth y DU yn dod â hwy i rym ar 1 Ionawr 2005 ac sy'n darparu hawliau mynediad llawer ehangach i wybodaeth amgylcheddol.

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 11 Ionawr 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**
- **Dadl ar yr adroddiad blynyddol ar y trefniadau ar gyfle cyfartal yn unol â Rheol Sefydlog 6.6 (60 munud)**

  Mae Rheol Sefydlog 6.6 yn ei gwneud yn ofynnol trefnu bod amser ar gael yn ystod pob cyfnod o ddeuddeng mis i drafod yr adroddiad blynyddol ar y trefniadau ar gyfer cyfle cyfartal

## Dydd Mercher 12 Ionawr 2005

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**
- **Dadl ar Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2 (60 munud)**
- **Dadl ar Setliad Llywodraeth Leol (60 munud)**

  Diben y ddadl, yn unol â Rheol Sefydlog 21.12, yw bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol yn cyflwyno Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol i Gynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06, gerbron y Cynulliad, i'w gymeradwyo trwy benderfyniad.

- **Dadl fer (30 munud)**